# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Alexandra House**

**Prestatyn**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Alexandra House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Alexandra House Support Services Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Rhagfyr 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn cynnal y gwaith o oruchwylio'r gwasanaeth a'r adolygiad o ansawdd y gofal a gynhelir. Mae angen gwella'r ddogfennaeth gofal a'r asesiadau risg. Mae cynlluniau personol y bobl naill ai ddim yn cynnwys digon o gyfarwyddiadau i'r staff ddarparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu ddim yn adlewyrchu'r wybodaeth a ddelir mewn rhannau eraill o'r ffeiliau gofal. Gwnaethom siarad â pherthnasau a ddywedodd wrthym fod anghenion cymorth y bobl yn cael eu trafod bob tro y byddant yn ymweld â'r cartref; fodd bynnag, ni fydd cynlluniau personol bob amser yn dangos y cânt eu hadolygu mewn modd amserol neu gyda'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses.

Caiff y rheolwr barch mawr gan y perthnasau a'r staff. Dywedodd perthnasau agosaf unigolion wrthym fod eu perthnasau yn hapus yn Alexandra House. Mae'r staff gofal yn dweud eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Mae proses recriwtio ddiogel ar waith sy'n sicrhau bod y staff gofal yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed a bod digon o staff ar ddyletswydd. Mae hyfforddiant y staff yn barhaus. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith.

Caiff y bobl gynnig dewisiadau dyddiol. Mae'r cydberthnasau rhwng y staff a'r preswylwyr yn gynnes ac yn ofalgar. Mae dewis da o fwyd cartref maethlon a darperir ar gyfer y bobl sydd ag anghenion deietegol arbennig. Mae'r cartref yn ddiogel, yn lân, yn daclus ac mae'r staff yn ystyriol o ofynion atal a rheoli heintiau.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwrandewir arnynt a chânt eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac mae'r rheolwr a'r uwch-aelodau o'r staff yn siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ddyddiol, fel y gall y bobl godi unrhyw bryderon yn uniongyrchol â nhw.

Nid yw'r bobl yn cael cymorth gyda'u hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol bob amser. Mae'r staff yn sylwgar, yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at y bobl a gwelsom sawl enghraifft o hyn drwy gydol y dydd. Mae cynlluniau personol ar waith, ond nid ydynt bob amser yn cynnwys digon o wybodaeth er mwyn i'r gweithwyr gofal ymgymryd â'u rolau'n gywir neu'n adlewyrchu meysydd eraill o ddogfennaeth gofal y bobl. Mae'r rheolwr a'r uwch-aelodau o'r staff yn cydweithio â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a'r perthnasau er mwyn sicrhau bod y bobl mor iach â phosibl. Mae angen gwella rhai o'r cynlluniau personol, er mwyn iddynt ddangos y cânt eu hadolygu mewn modd amserol a chaiff y bobl, neu gynrychiolydd priodol eu cynnwys yn y gwaith o adolygu eu cynlluniau personol.

Ar y cyfan, caiff y bobl eu hamddiffyn rhag achosion posibl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod. Mae trefniadau cadarn ar waith ar gyfer gwirio cofnodion y staff gofal. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff wedi ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant a ddarperir gan y cartref. Mae polisïau a gweithdrefnau gan gynnwys diogelu ar waith ac mae'r rheolwr yn cynnal cyfres o archwiliadau rheoli mewn perthynas â chyfres o ardaloedd sy'n ymwneud â threfniadau rhedeg y cartref.

Mae'r bobl yn byw ac yn defnyddio mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Dywedodd perthnasau wrthym fod y bobl yn hapus yn byw yn y gwasanaeth a'i ddefnyddio. Mae safonau glendid a hylendid yn dda ac mae gwiriadau, gwaith gwasanaethu a gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn sicrhau bod yr amgylchedd mor ddiogel ag y gall fod. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer rheoli'r risg o heintiau.

## Gofal a Chymorth

Ni all y bobl deimlo'n hyderus bob amser fod gan y darparwr gwasanaeth gynllun gofal cywir a chyfredol. Gwelsom nad oedd rhai cynlluniau personol wedi cael eu hadolygu yn unol â'r rheoliadau. Fodd bynnag, gwnaethom siarad â'r staff gofal a ddywedodd wrthym fod cynlluniau personol y bobl yn adlewyrchu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt yn gywir. Gwnaethom siarad â pherthnasau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau dydd a gofal seibiant yn Alexandra House a ddywedodd wrthym y caiff anghenion cymorth y bobl eu trafod â'r staff bob tro y byddant yn mynd i'r gwasanaeth. Gwnaethom siarad â'r gweithwyr gofal a'r uwch-reolwyr a ddywedodd wrthym y caiff anghenion cymorth y bobl eu trafod yn ystod cyfnodau trosglwyddo, a gwelsom hynny, ac os bydd anghenion y bobl yn newid, caiff cynlluniau personol y gweithwyr gofal eu diweddaru ac maen rhaid iddynt ailddarllen cynllun personol yr unigolyn. Gwelsom y caiff y bobl eu cefnogi yn unol â'u hanghenion ac mae'n adlewyrchu'r cymorth a amlinellir yn nogfennaeth gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o ofynion yr unigolyn sy'n cael ei gefnogi. Fodd bynnag, gwelsom nad yw rhai cynlluniau personol y bobl yn cynnwys digon o fanylion neu gyfarwyddiadau am ofal y staff mewn perthynas â meysydd fel sut i gefnogi'r bobl gyda'u gofal personol yn gywir neu sut y dylai'r staff ddelio ag ymddygiad penodol unigolyn. Gwelsom hefyd nad oedd rhai o'r asesiadau risg yn adlewyrchu'r risgiau a nodir mewn rhannau eraill o gynllun personol yr unigolyn. Gwnaethom siarad â'r uwch-reolwyr mewn perthynas â'r materion hyn ac roeddent wrthi'n gweithio tuag at eu hunioni. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Caiff y bobl ofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt. Gwnaethom siarad â pherthynas agosaf yr unigolyn a ddywedodd fod y gofal a'r cymorth y mae ei berthynas yn ei gael yn dda. Dywedodd un unigolyn wrthym am eu perthynas *“gets the care and support they need…. staff pamper their relative and give them attention…staff know exactly what they require.”* Gwelsom fod y bobl yn fodlon ar y cymorth y maent yn ei gael gan y staff gofal a gwelsom y staff yn cefnogi'r bobl yn briodol. Dywedodd y perthnasau a'r gweithwyr gofal wrthym fod y bwyd yn dda a chânt ddewis y bwyd y maent yn ei fwyta. Gwelsom fwydlenni yn cynnig nifer o wahanol opsiynau ac mae'r bobl yn helpu'r gweithwyr gofal i'w paratoi. Gwelsom fod y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn amlwg yn eu mwynhau. Gwelsom hefyd y bobl yn cael cymorth unigol yn ardal synhwyraidd y cartref.

Mae gan y darparwr ddulliau cynhwysfawr ar waith i ddiogelu'r bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo bod eu perthynas yn ddiogel yn Alexandra House, a gwnaethant ddweud wrthym y caiff unrhyw faterion gofal a chymorth eu trin yn brydlon gan y gweithwyr

gofal a'r rheolwr, a bydd y rheolwr yn eu galw i gadarnhau unrhyw faterion. Gwelsom hefyd fod polisi a gweithdrefn Diogelu'r darparwr yn gynhwysfawr.

Mae gan y gwasanaeth systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Gwelsom y polisi meddyginiaeth a oedd yn fanwl a gwelsom fod y siartiau meddyginiaeth wedi'u cwblhau'n gywir. Dywedodd y perthnasau wrthym nad oedd ganddynt unrhyw broblemau o ran y meddyginiaethau yn Alexandra House ac ni wyddent fyth am unrhyw broblem.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref ac yn ymweld â chartref sy'n diwallu eu hanghenion ac yn hyrwyddo llesiant. Mae'r cartref yn amgylchedd glân, golau a chadarnhaol lle mae gan y bobl gyfleusterau da o fewn eu cyrraedd. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ailaddurno'n ddiweddar a gwnaed ystod eang o welliannau strwythurol. Roedd yr ystafelloedd gwely a welsom wedi'u haddurno'n unigol ac roeddent yn cynnwys eitemau personol. Mae gwahanol ardaloedd yn y cartref, fel ystafell grefft â thystiolaeth o grefftau yn cael eu gwneud, teledu ac ystafell gerddoriaeth ac ystafell synhwyraidd. Mae ystafelloedd ymolchi sydd wedi'u haddasu'n arbennig. Mae ardal fwyta yn cynnig lle i'r bobl fwyta gyda'i gilydd. Gall y bobl gyfarfod ag eraill a meithrin cydberthnasau yn yr ardaloedd cymunedol a chael ardal breifat os bydd ei hangen arnynt. Gwelsom y bobl yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd ac aelodau o'r staff yn ystod yr arolygiad. Mae'r bobl yn mwynhau gardd fawr, ddiogel a dymunol y tu ôl i'r cartref, sy'n cynnwys ardal batio a glaswellt, gasebo, ac ardal lle y cedwir cwningod.

Mae'r cartref yn ddiogel, a gofynnir i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd a gadael yr adeilad. Gofynnwyd i ni brofi pwy oeddem cyn mynd i mewn i'r eiddo. Mae'r coridorau yn llydan, ac nid oes unrhyw annibendod, sy'n galluogi'r bobl i symud o gwmpas yn rhydd ac yn ddiogel. Gwelsom gofnodion iechyd a diogelwch y cartref a gwelsom fod proses ar waith er mwyn sicrhau bod gwiriadau diogelwch wedi eu cwblhau gan gontractwyr allanol a'r tîm rheoli yn amserol. Roedd y rhain yn cynnwys gwiriadau nwy, trydanol, tân a dŵr. Fodd bynnag, gwelsom fod contractwyr wedi cynnal asesiad risg tân a phrawf PAT ar eitemau trydanol, ond nid oeddem yn gallu cadarnhau a oedd y gweithwyr gofal wedi cynnal profion rheolaidd o'r larymau tân neu a oedd prawf trydanol bob pum mlynedd wedi'i gynnal gan gontractwr a gymeradwywyd. Mae'r cartref yn lân ac wedi'i ddodrefnu a'i addurno'n dda ac mae glanhau yn broses barhaus drwy'r dydd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio a'i lywodraethu'n effeithiol. Gwelsom fod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac wedi cwblhau'r ymweliadau gofynnol ac wedi llunio adroddiad mewn perthynas â hyn. Mae adroddiad ar ansawdd y gofal wedi'i gwblhau yn unol â'r rheoliadau a dywedodd uwch-reolwyr a gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cael cymorth rheoli da gan y darparwr. Gwelsom hefyd fod archwiliadau'r rheolwyr fel diogelu, a meddyginiaeth wedi cael eu cwblhau.

Gall y bobl fod yn hyderus y cânt eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff sy'n addas ac sy'n meddu ar y wybodaeth a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol. Mae ffeiliau'r staff yn dangos bod trefniadau recriwtio'r gweithwyr gofal yn gadarn, eu bod wedi cael y gwiriadau priodol ac wedi cofrestru â'r corff proffesiynol priodol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael digon o hyfforddiant ac mae'r hyfforddiant a gânt yn briodol ar gyfer y rôl. Cafodd hyn ei gadarnhau gan berthnasau a ddywedodd wrthym fod y cymorth a ddarperir yn dda ac mae'r ddogfennaeth a welsom yn dangos bod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant wedi cael eu cynnal. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod digon o staff ar ddyletswydd. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn rotas y staff a welsom. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael cymorth rheoli da, mae'r uwch-reolwyr yn cymryd materion o ddifrif ac maent yn cael eu goruchwylio. Gwnaethom adolygu'r dogfennau goruchwylio a oedd yn dangos nad yw'r bobl bob amser yn cael eu goruchwylio yn unol â'r rheoliadau.

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith, fel rheoli heintiau, ymatebion i ymddygiad a meddyginiaeth. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Dylid rhoi'r cyfarwyddiadau priodol i'r staff am gynlluniau personol ac asesiadau risg i sicrhau eu bod yn gallu ymgymryd â'u rolau yn effeithiol ac yn gywir. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/10/2023